

Pembrokeshire County Council  
Cyngor Sir Benfro



# POLISI CODI TÂL AM WASANAETHAU CYMDEITHASOL

|   |  |                                    |   |
|---|--|------------------------------------|---|
| <b>Statws Cyfredol a'r Dyddiad</b>                  | Diwygiwyd – Tachwedd 2017<br>Diwygiwyd – Hydref 2018   | <b>Dyddiad Cymeradwyo Diwethaf</b> | Cymeradwyaeth y Cabinet 27 Tachwedd 2017<br><br>Cymeradwyaeth DMT Tachwedd 2018 |
| <b>Rheolwr / Rheolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol</b> | <b>Pennaeth Cydgomisiynu Strategol<br/>Pennaeth Gofal Oedolion<br/>Pennaeth y Gwasanaethau Plant</b> |                                    |   |

|                           |   |
|---------------------------|---|
| <b>Manylion y Fersiwn</b> | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Sevices Branding\P6168 Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|---------------------------|---|

## Contents

|  |    |
|--|----|
| 1. CYFLWYNIAD.....   | 3  |
| 2. ASESU A DIWALLU ANGHENION.....                                | 3  |
| 3. PRESWYLFA ARFEROL.....  | 3  |
| 4. HUNANGYLLIDO .....  | 4  |
| 4.1 Preswyl.....   | 4  |
| 4.2 Allanol.....   | 4  |
| 5. CODI AM WASANAETHAU.....                                      | 4  |
| 5.1 Gwybodaeth a Chyngor .....                                   | 4  |
| 5.2 Aseidiadau Ariannol .....                                    | 4  |
| 5.3 Y Rhai Na Fydd yn Gorfod Talu.....                           | 5  |
| 5.4 Gwasanaethau Na Fydd Tâl Amdanynt .....                      | 5  |
| 5.5 Ffioedd a Phrisiau .....                                     | 6  |
| 5.6 Taliadau Safonol am Wasanaethau Statudol.....                | 6  |
| 5.7 Gwasanaethau Taladwy .....                                   | 7  |
| 5.8 Dewis Llety a Chyfraniad Cost Ychwanegol .....               | 10 |
| 5.9 Taliadau Gohiriedig a Chodi Llog ar Daliadau Gohiriedig..... | 10 |
| 5.10 Codi ar Ofalwyr .....                                       | 11 |
| 5.11 Apelio yn erbyn Taliadau Asesedig .....                     | 11 |
| 5.12 Adennill Dyledion ac Amddifadu o Asedau .....               | 11 |
| ATODIAD 1 - DEDDFWRIAETH .....                                   | 12 |
| ATODIAD 2 – 2017/18 FFÏOEDD A PHRISIAU .....                     | 13 |
| ATODIAD 3 - ASESIAID ARIANNOL (ASESIAD TALIADAU).....            | 17 |
| ATODIAD 4 – APELIO YN ERBYN TALIADAU ASESEDIG.....               | 20 |

## 1. CYFLWYNIAD

Pennodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 [SSWBA], a'r Codau Ymarfer cysylltiedig, ddyletswyddau a dewisiadau i awdurdodau lleol godi am wasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol; yn arbennig Rhannau 4 a 5 o SSWBA a'r rheoliadau cysylltiedig. Etifeddwyd rhai o'r gofynion hyn o ddeddfwriaeth flaenorol a, thra nad ydynt mwyach yn berthnasol yng Nghymru, mae cynseiliau rhai taliadau dewisol yn bodoli. I gael manylion y ddeddfwriaeth berthnasol, cyfeiriwch at Atodiad 1. Mae SSWBA yn darparu fframwaith ar gyfer codi am wasanaethau a chymorth gofal preswyl ac allanol. Bydd y polisi codi tâl hwn yn caniatáu agwedd gyson at godi am wasanaethau, fydd yn dileu amrywiad yn sut gaiff tâl ei godi ar bobl.

## 2. ASESU A DIWALLU ANGHENION

Mae Rhan 3 o SSWBA – Adrannau 19, 21 a 24 – yn rhoi dyletswyddau ar awdurdod lleol i asesu anghenion oedolyn am ofal a chymorth, anghenion plentyn am ofal a chymorth ac anghenion gofalwr am gymorth.

Mae Rhan 4 o SSWBA yn pennu bod gan Awdurdodau Lleol dyletswydd i ddiwallu anghenion a nodwyd fel rhan o asesiad gofal a chymorth, ar yr amod bod yr unigolyn yn byw fel arfer yn nhiriogaeth yr awdurdod lleol neu heb breswylfa arferol ac o fewn tiriogaeth yr awdurdod. Bydd yr asesiad hwn yn pennu pa anghenion y mae'r Awdurdod Lleol yn gorfod eu diwallu a pha anghenion fydd yn cael eu diwallu gan yr unigolyn neu drwy wasanaethau a chymorth sydd ar gael yn y gymuned. Bydd faint sydd i'w dalu gan rywun am wasanaeth yn dibynnu weithiau ar ddewis yr unigolyn. Pan fo hynny'n berthnasol, os bydd rhywun yn cael dewis rhwng dau neu fwy o wasanaethau sy'n diwallu'r anghenion a aseswyd ar y gyfradd safonol sy'n cael ei thalu gan yr Awdurdod Lleol a'r unigolyn yn dewis un drutach, bydd yr unigolyn neu rywun arall yn gorfod talu'r swm ychwanegol, ar ben y taliad a godir gan yr Awdurdod Lleol. I gael rhagor o fanylion ynghylch yr amgylchiadau hyn, cyfeiriwch at wasanaethau unigol isod.

## 3. PRESWYLFA ARFEROL

Mae Adran 194 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu ar gyfer penderfynu preswylfa arferol rhywun.

Pan fo gan oedolyn anghenion gofal a chymorth nad oes modd eu diwallu heblaw trwy fyw mewn llety o fath penodedig a bod yr oedolyn yn byw mewn llety o fath penodedig yng Nghymru, rhaid trin yr oedolyn fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y cylch lle'r roedd yr oedolyn yn byw fel arfer yn union cyn i'r oedolyn ddechrau byw yn y math penodedig o lety. Os oedd yr oedolyn neb breswylfa sefydlog yn union cyn dechrau byw mewn math penodedig o lety, rhaid trin yr oedolyn fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y cylch lle'r oedd yr oedolyn ar y pryd.

|                    |   |
|--------------------|---|
| Manylion y Fersiwn | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Seviles Branding\P6168 Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|--------------------|---|

## **4. HUNANGYLLIDO**

### **4.1 Preswyl**

Bydd y rhai a gafodd asesiad ariannol sy'n penderfynu bod ganddynt ddigon o arian i dalu am eu gofal eu hunain yn gyfrifol am holl daliadau cysylltiedig â'u hanghenion preswyl, os yw'n ymarferol o fewn rheswm i'r unigolyn a aseswyd dalu. Bydd hyn yn parhau nes bydd eu hadnoddau ariannol yn mynd islaw'r swm penodedig yn y rheoliadau. Fe all pobl sy'n hunangyllido'u gofal ofyn i'w hawdurdod lleol drefnu eu gofal a chymorth drostynt os ydynt yn dewis, dan Adran 35 o SSWBA. Os bydd yr awdurdod lleol yn trefnu eu rhoi mewn cartref gofal, yr awdurdod lleol fydd yn dal y contract a bydd angen i'r unigolyn ad-dalu'r awdurdod lleol am gost lawn y lleoliad.

### **4.2 Allanol**

Bydd disgwyl i bobl sydd ag arian uwchlaw'r terfyn cyfalaf dalu hyd at yr uchafswm wythnosol yn unol â chanlyniad eu hasesiad ariannol. Fodd bynnag, os byddant yn mynd am ddewis drutach neu ofal ychwanegol ar ben yr hyn sy'n diwallu eu hanghenion asesedig a phan fo dau neu fwy o ddewisiadau cyfradd safonol sy'n diwallu eu hanghenion ar gael, byddant yn talu'r gost ychwanegol yn ogystal â thalu'r hyn a godir gan yr awdurdod lleol.

## **5. CODI AM WASANAETHAU**

### **5.1 Gwybodaeth a Chyngor**

Mae gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth yn bodoli ar gyfer rhoi gwybodaeth ar gael yr incwm mwyaf, yr asesiad ariannol a'r polisi codi tâl. Bydd hwn yn cael ei ddarparu ar ffurf sy'n cyd-fynd ag anghenion cyfathrebu rhywun. Mae gwasanaethau eirioli ar gael hefyd i'r rhai sydd angen hynny.

### **5.2 Asesiadau Ariannol**

Mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i wneud asesiadau ariannol dan rai amgylchiadau. Bydd asesiadau ariannol yn cael eu cynnig i bawb sy'n derbyn gwasanaeth taladwy nad yw'n cael ei godi ar gyfradd safonol, i benderfynu faint allant fforddio'i dalu. Bydd taliadau asesedig yn cael eu penderfynu'n unol â'r rheoliadau Asesiadau Ariannol ac fel y cymeradwywyd gan y Cyngor, gan gyfrif y dreth gyngor ac ymrwymiad morgais neu rent.

Bydd rhywun sydd heb gymhwyster yn gorfod talu am ofal a chymorth, pan fo'n berthnasol, fel y penderfynir drwy broses yr asesiad ariannol. Bydd pobl a aseswyd yn brin o gymhwyster yn cael gwybodaeth, cyngor a chymorth, priodol i'w hanghenion asesedig. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori ag aelodau o'r teulu pan fo hynny'n berthnasol a/neu benodi eiriolwr neu wneud cais i'r Llys Gwarchod, os oes gofyn.

Ni fydd rhywun yn cael asesiad fel un o bâr heblaw pan fo'n rhoi mwy o fantais ariannol i'r un sy'n cael yr asesiad. Fe all partneriaid rhai sy'n derbyn gwasanaethau asesedig wrthod rhoi eu gwybodaeth ariannol eu hunain.

|                    |   |
|--------------------|---|
| Manylion y Fersiwn | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Sevices Branding\P6168 Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|--------------------|---|

Os oes angen rhywun addas ar unigolion i wneud penderfyniadau ariannol ar eu rhan, oherwydd eu bod yn brin o gymhwyster, ond nad oes neb o'r fath, efallai y bydd angen cais i'r Llys Gwarchod.

Bydd defnyddwyr gwasanaethau'n cael ffurflen i'w llenwi a fydd yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer yr asesiad ariannol. Bydd y ffurflen hon, ynghyd â'r dystiolaeth ddogfennol ategol berthnasol, yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r taliad asesedig. Bydd pawb sy'n dewis peidio â llenwi'r ffurflen neu ddarparu'r dogfennau ategol angenrheidiol o fewn yr amserlenni a roddwyd yn gorfod talu'r gost lawn yn unol â'r rheoliadau. **Gwelwch ATODIAD 3 ASESIADAU ARIANNOL.**

### 5.3 Y Rhai Na Fydd yn Gorfod Talu

Mae SSWBA a/neu reoliadau'n gofyn peidio â chodi ar y bobl ganlynol:

- Plant, am ofal a chymorth a gânt fel defnyddwyr gwasanaethau neu ofalwyr.
- Rhieni neu warcheidwaid plant neu blant sy'n ofalwr yn derbyn gofal a chymorth. Mae SSWBA yn caniatáu codi tâl ond nid yw rheoliadau cyfredol yn caniatáu hynny.
- Rhywun sydd ag Afiechyd Creutzfeldt-Jacob.
- Ni fydd gofalwyr yn gorfod talu am wasanaethau a ddarparwyd i neu a drefnwyd ar gyfer bwy bynnag sydd dan eu gofal.

Mae'r rhestr uchod yn berthnasol hefyd i geisio cael cyfraniadau neu ad-daliad tuag at daliadau uniongyrchol.

Bydd awdurdodau lleol eraill sy'n defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau CSP i ddiwallu anghenion plant yn gorfod talu'r gyfradd briodol. Bydd rhieni plant sy'n mynd am ddewisiadau gwasanaeth uwchlaw'r hyn sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion asesedig y plant hynny'n gorfod talu'n unol â'r rheoliadau Cyfraniad Cost Ychwanegol.

### 5.4 Gwasanaethau Na Fydd Tâl Amdanynt

- Cludiant i gyrraedd cyfleoedd dydd lle nodwyd bod angen y cludiant ac nad yw'r unigolyn yn derbyn elfen symudedd fel rhan o unrhyw fudd-daliadau perthnasol.
- Ailalluogi a chyfarpar a ddarperir fel rhan o ailalluogi am hyd at uchafswm o 6 wythnos.
- Gofal Canolraddol, lle mae angen asesedig, y gellid ei ddarparu'n ddi-dâl, am hyd at 6 wythnos.
- Rhywun sy'n cael gwely asesu fel rhan o asesiad integredig i benderfynu anghenion. Bydd taliadau'n dechrau unwaith y daw'r gwasanaeth gwely asesu i ben a'r gwasanaeth asesedig priodol yn dechrau
- Rhaglenni cyflogaeth.
- Gwasanaethau / cymorth ôl-ofal a ddarperir dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

- Rhoi gwybodaeth a chyngor; asesu anghenion; cynllunio gofal; cynlluniau gofal; a gwneud adolygiad o benderfyniad taliad neu eiriolaeth broffesiynol annibynnol.
- Caiff gwasanaethau sy'n cael eu darparu neu drefnu i ddiwallu anghenion asesedig plentyn eu gwahardd mewn rheoliadau ar gyfer 2016/17. [Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015]

Mae'r rhestr uchod yn berthnasol hefyd i geisio cael cyfraniadau neu ad-daliad tuag at daliadau uniongyrchol.

## 5.5 Ffioedd a Phrisiau

Deddfwriaeth a pholisïau ariannol lleol sy'n llywodraethu ffioedd a phrisiau'n rhannol. Bydd y rhain yn cael eu pennu fel bod yr awdurdod lleol yn gallu adennill y gost lawn. Cânt eu hadolygu bob blwyddyn fel rhan o broses y gyllideb. Ni fydd taliadau am wasanaethau'n fwy na chost darparu neu drefnu'r gofal a chymorth neu'r hyn sydd i'w gael drwy daliadau uniongyrchol.

Bydd taliadau'n berthnasol:

- o ddyddiad dechrau'r gwasanaeth; neu
- os yw'r gwasanaeth wedi newid, o ddyddiad newid y gwasanaeth.

Bydd y pris i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cael ei benderfynu yn ôl y gyfradd a gytunwyd, ac yn daladwy yn ôl y swm a benderfynwyd fel rhan o'r asesiad ariannol. Bydd y taliad yn berthnasol o ddyddiad dechrau'r gwasanaeth ond ni fydd yn cael ei gasglu cyn i'r unigolyn gael cyfle i gwblhau asesiad ariannol a chael datganiad o'r taliadau. Mae rhestr o daliadau a chyfraddau am wasanaethau i'w gweld yn: **FFÏOEDD A PHRISIAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL.**

Ar gyfer gwasanaethau allanol, mae Llywodraeth Cymru'n pennu uchafswm wythnosol y mae modd ei godi ar rywun. Fodd bynnag, caniateir taliadau ar gyfradd safonol am rai gwasanaethau fel pryd ar glud, larymau cymunedol, a phrydau sy'n cael eu darparu mewn sefydliadau preswyl, canolfannau dydd a chanolfannau gweithgaredd cymdeithasol, boed yr Awdurdod Lleol yn eu darparu neu'n eu comisiynu. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth.

## 5.6 Taliadau Safonol am Wasanaethau Statudol

Bydd taliadau safonol yn cael eu pennu am ofal a chymorth statudol lefel isel, rhad, fel larymau cymunedol, pryd ar glud ac atebion technoleg gynorthwyol. Bydd y taliadau safonol hyn yn berthnasol hefyd pan fydd pobl yn dewis talu'n uniongyrchol am y gwasanaethau hyn.

|                    |  |
|--------------------|--|
| Manylion y Fersiwn | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Services Branding\P6168 Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|--------------------|--|

Ni fydd taliadau safonol yn fwy na chostau trefnu neu ddarparu'r gofal a chymorth cysylltiedig. O ran taliadau safonol, bydd asesiadau ariannol yn cael eu cynnig a'u gwneud yn unig pe gallai'r taliadau safonol gael effaith andwyol ar incwm rhywun, naill ai ar wahân neu ynghyd â thaliadau eraill am ofal a chymorth.

## 5.7 Gwasanaethau Taladwy

### Costau Ychwanegol am wasanaethau Allanol

Fe all fod costau ychwanegol cysylltiedig â gweithgareddau sy'n digwydd yn ystod darparu rhai o'r gwasanaethau isod. Gallai'r rhain gynnwys costau fel taliadau mynediad, prydau allan ac ati. Bydd y costau hyn yn cael eu talu gan ddefnyddiwr y gwasanaeth neu rywun arall, fel cynorthwy-ydd personol defnyddiwr y gwasanaeth, ar adeg eu prynu ac ni fyddant yn cael eu cynnwys mewn datganiadau. Ni fydd taliadau uniongyrchol yn cael eu rhoi i dalu am y mathau hyn o gostau oherwydd nad ydynt yn gysylltiedig ag anghenion asesedig defnyddiwr y gwasanaeth.

### Cyfraniadau Costau Ychwanegol (Trydydd-parti)

Mewn rhai achosion, fe all defnyddiwr gwasanaethau fynd am ddewis drutach uwchlaw'r hyn sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion asesedig. Mewn achosion o'r fath, fe all fod modd i ddefnyddiwr y gwasanaeth neu rywun arall dalu'r gwahaniaeth rhwng faint wnaiff CSP ei dalu a chost y gwasanaeth. Bydd angen i ddefnyddiwr y gwasanaeth / rhywun arall fod yn barod i dalu'r gost ychwanegol gyhyd a bo'r gwasanaeth yn ofynnol. Bydd raid llenwi Datganiad o Fodd fel bod modd gwneud asesiad o fforddiadwyedd a chynaliadwyedd hirdymor y taliad hwn.

Caiff **Taliadau Uniongyrchol** eu darparu i dalu am amrywiaeth o anghenion. Fodd bynnag, caiff y rhan fwyaf eu defnyddio i gyflogi cynorthwywyr personol neu i gaffael cyfleoedd dydd. Bydd rhai taliadau uniongyrchol yn cael eu penderfynu yn ôl amgylchiadau unigol. Gwelwch yr atodiad cyfraddau a ffioedd i gael manylion.

### Lleoli Oedolion

Mae gwasanaethau Lleoli Oedolion yn cynnwys: lleoliadau llety hirdymor sy'n cael eu codi fesul wythnos fydd yn cael eu gwrthbwysu gan fudd-dal tai; gofal a chymorth sy'n cael ei godi fesul noson ac sy'n amodol ar yr uchafswm wythnosol; a chyfleoedd dydd sy'n cael eu codi fesul awr ac sydd hefyd yn amodol ar yr uchafswm wythnosol.

### Ailalluogi

Ni fydd tâl yn cael ei godi am ailalluogi hyd at uchafswm o 6 wythnos. Ar ôl y cyfnod cyntaf hwn, bydd tâl yn cael ei godi am ailalluogi ar yr un gyfradd â chymorth cartref a chymunedol, bob yn awr ar sail wythnosol, yn amodol ar yr uchafswm wythnosol.



Caiff **Cymorth Cartref a Chymunedol** ei ddarparu gartref, gan gynnwys sefydliadau byw gyda chymorth. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, y canlynol: gofal personol; cymorth cyffredinol; oriau ar y cyd ar gyfer cymorth cyffredinol i'r rhai mewn tenantiaethau byw gyda chymorth; a gofal yn lle sy'n cael ei ddarparu i bobl sydd, fel arfer, yn derbyn gofal gan ofalwr digyflog, yn eu cartrefi eu hunain. Caiff hyn ei godi fesul awr ar sail wythnosol a bydd yn amodol ar yr uchafswm allanol wythnosol.

**Gofal Preswyl Byrdymor** [seibiant yw'r enw cyffredin] yw arhosiad mewn sefydliad preswyl cofrestredig heb fod am fwy nag 8 wythnos yn olynol. Bydd cyfradd fesul noson yn cael ei defnyddio ar sail cyfraddau wythnosol cartrefi gofal unigol. Bydd rhywun yn talu fesul noson am y cyfnod, heb ystyried a yw hynny'n pontio penwythnos, a bydd yn amodol ar yr uchafswm allanol wythnosol. Caiff cyfradd gofal nos unrhyw fudd-daliadau y mae'r unigolyn yn eu derbyn ei defnyddio yn yr asesiad ariannol i benderfynu faint i godi am arosiadau preswyl byrdymor.

**Arhosiad Preswyl Dros Dro** – Os bydd rhywun yn mynd i leoliad preswyl cofrestredig ar gontract dros dro (lle mae'n disgwyl aros mwy nag 8 wythnos yn olynol) a'r arhosiad yn dod i ben o fewn 8 wythnos, yna bydd hyn yn cael ei godi fel allanol hyd at yr uchafswm wythnosol cenedlaethol. Os yw uwchlaw 8 wythnos, bydd y taliad yn ôl rheoliadau taliadau preswyl. Bydd defnyddiwr y gwasanaeth yn atebol am y taliad o'r diwrnod y dechreuodd y lleoliad.

### **Gwasanaethau Seibiant yng Nghartrefi Gofal CSP [Havenhurst, Milford House a Hillside]**

1. Bydd rhywun nad yw'n byw fel arfer yn Sir Benfro'n gorfod talu'r gost lawn.
2. Bydd trigolion Sir Benfro sydd wedi cael taliad uniongyrchol (DP) ar gyfer gwasanaethau seibiant yn gorfod talu'r gost lawn. Mae hyn yn golygu y bydd angen iddynt dalu unrhyw ddiffyg rhwng y gost lawn a swm eu DP.
3. Bydd angen atgyfeirio trigolion Sir Benfro nad ydynt yn hysbys neu na chawsant eu hasesu ar gyfer gwasanaethau seibiant gan y gwasanaethau cymdeithasol drwy'r tîm cyswllt cyntaf i benderfynu hawl i seibiant. Os yw'r asesiad hwn yn dangos bod angen seibiant, bydd taliadau allanol yn berthnasol hyd at yr uchafswm wythnosol cenedlaethol.
4. Bydd trigolion Sir Benfro nad ydynt yn dymuno cael eu hasesu gan y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer gwasanaethau seibiant ac sydd eisiau prynu'r gwasanaeth hwn yn breifat yn talu'r gost lawn.

Fe all **Cyfleoedd Dydd** gynnwys amrywiaeth o wasanaethau.

- Bydd taliadau am gyfleoedd dydd yn un o ganolfannau dydd / gweithgaredd cymdeithasol y Cyngor yn cael eu codi ar gyfradd ddyddiol, yn amodol ar yr uchafswm allanol wythnosol.

|                    |   |
|--------------------|---|
| Manylion y Fersiwn | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Seviles Branding\P6168 Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|--------------------|---|

- Bydd taliadau am gyfleoedd dydd mewn sefydliadau eraill yn cael eu codi ar sail amgylchiadau unigol ac yn amodol ar yr uchafswm allanol wythnosol.
- Bydd taliadau am ddarparu cyfleoedd hyfforddi i ddiwallu anghenion asesedig yn cael eu codi yn ôl y rhaglen ac yn amodol ar yr uchafswm allanol wythnosol.

**Seibiannau** yw dal i ddarparu gofal a chymorth mewn sefydliadau heblaw cartrefi gofal cofrestredig, gan gynnwys gwestai, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt. Mae modd darparu'r gwasanaethau hyn i'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth yn y gymuned ac sydd angen seibiant byr. Ni fydd y rhain yn hwy nag un wythnos a chânt eu darparu i ddiwallu anghenion asesedig ddefnyddwyr gwasanaethau a/neu ofalwyr digyflog. Bydd taliadau am y rhain yn cael eu codi ar sail amgylchiadau unigol yn unol â rheoliadau taliadau allanol. I gael manylion llawn, cyfeiriwch at y Polisi Seibiannau.

Caiff taliadau am **brydau sy'n cael eu darparu mewn sefydliadau preswyl, mewn Canolfannau Dydd a Chanolfannau Gweithgaredd Cymdeithasol CSP** eu codi ar gyfradd safonol, fesul pryd. Ni fydd hyn yn amodol ar yr uchafswm allanol wythnosol.

### **Gofal Preswyl Parhaol**

Bydd pobl a aseswyd fel bod angen lleoliad mewn cartref gofal yn cael asesiad ariannol i benderfynu a ddylent dalu am y lleoliad. Bydd pobl gyda chyfalaf ar neu islaw'r terfyn cyfalaf yn cyfrannu at y costau fel y penderfynwyd yn yr asesiad ariannol. Fodd bynnag, byddant yn cael eu gadael gydag o leiaf yr incwm wythnosol gofynnol ar sail y rheoliadau. Bydd taliadau am ofal preswyl parhaol yn cael eu codi ar y gyfradd wythnosol a gytunwyd gyda'r cartref gofal. Dan rai amgylchiadau, bydd defnyddiwr y gwasanaeth neu rywun arall yn gorfod talu costau ychwanegol os bydd yn mynd am ddewis uwchlaw'r hyn sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion asesedig, yn ogystal â'r taliad asesedig.

### **Gwelwch ATODIAD 3 ASESIAID ARIANNOL (ASESIAD TALIADAU)**

Gwelwch: Preswylfa Arferol, Hunangyllido a Dewis Llety.

### **Gofal Nyrsio Preswyl Parhaol**

Bydd cyfran ofal nyrsio lleoliad preswyl yn cael ei thalu gan y Bwrdd Iechyd Lleol ar y gyfradd gyfredol a gytunwyd. Bydd anghenion iechyd a nyrsio cysylltiedig sy'n arwain at gyllido Gofal Iechyd Parhaus (CHC) yn cael eu cyllido gan y Bwrdd Iechyd Lleol, naill ai'n gyfan gwbl neu ar y cyd â'r Awdurdod Lleol.

### **Gwelyau Gofal Canolraddol**

Yn union fel ailalluogi, byddai modd darparu'r gofal hwn, pan fo angen asesedig, am hyd at 6 wythnos yn ddi-dâl. Fe all rhywun fod â hawl i estyniad a fydd yn seiliedig ar adolygiad o anghenion asesedig fesul achos. Ar ôl y cyfnod dechreuol a gytunwyd, bydd taliadau allanol yn berthnasol hyd at yr uchafswm wythnosol cenedlaethol. Os bydd asesiad wedyn yn dangos bod angen gwely preswyl, bydd rheolau codi taliadau preswyl yn berthnasol.

|                    |  |
|--------------------|--|
| Manylion y Fersiwn | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Services Branding\P6168 Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|--------------------|--|

## **Gwelyau Cymorth Dros Dro**

Bydd pobl sy'n feddygol addas i fynd adref, ond nad oes gofal cartref i'w gael iddynt ar unwaith, yn cael cynnig gwely mewn cartref gofal priodol. Bydd y taliad perthnasol am yr 8 wythnos gyntaf yn seiliedig ar nifer yr oriau gofal cartref a aseswyd y byddai arnynt eu hangen. Ar ôl yr 8 wythnos gyntaf bydd yr achos yn cael ei adolygu ac fe ellir codi yn unol â'r rheolau codi taliadau preswyl.

## **Anghenion sy'n Newid yn Effeithio ar Daliadau**

Os yw anghenion rhywun yn newid cyn cyrraedd diwedd cyfnod o wasanaeth a gynlluniwyd, a gwasanaeth gwahanol yn dechrau, bydd taliadau am y gwasanaeth newydd yn berthnasol o ddyddiad dechrau'r gwasanaeth newydd. Enghraifft o hyn yw pan fo rhywun ar gyfnod o seibiant ond, o fewn y cyfnod a gytunwyd, bod y lleoliad yn cael ei newid i un parhaol oherwydd bod anghenion yr unigolyn wedi newid. Bydd y taliad sy'n cael ei godi ar yr unigolyn am y seibiant a dderbyniwyd dan y rheolau allanol a than y rheolau preswyl o ddyddiad dechrau'r lleoliad parhaol.

### **5.8 Dewis Llety a Chyfraniad Cost Ychwanegol**

Asesiad o anghenion rhywun fydd yn penderfynu pa lety fydd fwyaf addas. Fe all dewis llety effeithio ar y taliad i'w godi. Rhaid i rywun gael dau ddewis neu fwy o sefydliad preswyl a aseswyd ar gyfradd safonol yr awdurdod lleol ac sy'n diwallu anghenion yr unigolyn. Os bydd yr unigolyn yna'n mynd am ddewis drutach, bydd y gost ychwanegol, dan rai amgylchiadau, yn gorfod cael ei thalu gan yr unigolyn neu rywun arall. Bydd y gost ychwanegol yn cael ei thalu ar ben y taliad asesedig. Fe all yr awdurdod lleol geisio adennill unrhyw ddyled gysylltiedig â'r cyfraniad cost ychwanegol gan bwy bynnag sy'n gyfrifol am ei thalu. Bydd angen i bwy bynnag sy'n gwneud cais i dalu cyfraniad cost ychwanegol ddarparu datganiad o fodd, er mwyn gallu penderfynu y bydd yn gallu talu'r gost ychwanegol dros gyfnod hir.

### **5.9 Taliadau Gohiriedig a Chodi Llog ar Daliadau Gohiriedig**

Efallai y bydd angen i bobl werthu eu cartref i dalu costau gofalu amdanynt mewn cartref gofal. Bydd cytundeb taliadau gohiriedig yn cael ei gynnig i bobl sydd eisiau oedi cyn gwerthu'u cartref tan ryw adeg sy'n fwy addas, os ydynt yn cyrraedd meini prawf y rheoliadau Taliadau Gohiriedig. Mae'r polisi Taliadau Gohiriedig llawn i'w gael ar gais. Mae'r rheoliadau'n caniatáu hawl i godi ffioedd gweinyddol a llog hyd at 0.5% uwchlaw Cyfradd Gilt y Farchnad fel yr hysbysir yn adroddiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar y Rhagolwg Economaidd a Chyllidol. Bydd yr atodiad Ffioedd a Phrisiau'n cynnwys manylion gweinyddol a llog a allai fod yn berthnasol i daliadau gohiriedig.

|                    |   |
|--------------------|---|
| Manylion y Fersiwn | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Seviles Branding\P6168 Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|--------------------|---|

## 5.10 Codi ar Ofalwyr

Un unol â'r polisi codi tâl hwn, mae modd codi ar ofalwyr aeddfed [heblaw rhiant neu warcheidwad plentyn neu blentyn sy'n ofalwr yn derbyn gofal a chymorth] sydd ag anghenion asesedig ynddynt eu hunain ac sy'n derbyn gwasanaethau neu daliad uniongyrchol.

## 5.11 Apelio yn erbyn Taliadau Asesedig

Fe all defnyddwyr gwasanaethau sy'n meddwl y gwnaed camgymeriad wrth gyfrifo'u taliad asesedig, neu sy'n meddwl fod ganddynt wariant cysylltiedig ag anghenion ychwanegol nad ystyriwyd yn yr asesiad ariannol, ofyn am adolygiad o'u taliad asesedig. Mae manylion llawn yn Atodiad 4 Apelio yn erbyn Taliadau Asesedig.

## 5.12 Adennill Dyledion ac Amddifadu o Asedau

Bydd adennill dyledion yn cael ei ystyried pan fo'n amlwg eu bod yn deillio o ddiffyg talu bwriadol. Bydd holl ddewisiadau rhesymol eraill yn cael eu hystyried cyn defnyddio pwerau adennill dyledion dan adran 70 y Ddeddf (Adennill taliadau, llog, ac ati), gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: ymgysylltu / ymgynghori, cyd-drafod, cyfryngu ac achos llys os caiff cael hyn ei ystyried yn briodol. Ni fydd gweithwyr achosion a rheolwyr y gwasanaethau cymdeithasol yn ceisio adennill dyledion er mwyn sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau a bod y gwasanaethau cymdeithasol yn dal i ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion asesedig. Fodd bynnag, bydd staff y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â chyfnod cyntaf y broses adennill dyledion i ymgysylltu â defnyddiwr y gwasanaeth er mwyn penderfynu beth yw amgylchiadau'r diffyg talu a phosibilrwydd eu datrys yn gynnar. Bydd ymgynghori hefyd â staff y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y broses lle bo angen. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod fel bod amgylchiadau penodol fel iechyd a ffyniant ac unrhyw anghenion cyfathrebu'n cael ystyriaeth briodol.

Mae Amddifadu o Asedau'n berthnasol i rywun sy'n fwriadol wedi amddifadu eu hunain o asedau i osgoi neu leihau taliadau. Mae asedau'n golygu cyfalaf a/neu incwm. Dim ond asedau a fyddai fel arfer yn cael eu hystyried fel rhan o asesiad ariannol fydd yn cael eu harchwilio ar gyfer amddifadu. Os yw amddifadu o asedau'n cael ei amau, caiff mwy o ymholiadau eu gwneud i benderfynu a oedd yn fwriadol a'r rheswm dros wneud hynny. Isadran gyfreithiol CSP fydd yn arwain yr ymholiadau hyn.

Pan fo'n amlwg y bu amddifadu a phenderfyniad yn cael ei wneud i gasglu'r ddyled sy'n deillio o hyn, caiff holl ddewisiadau rhesymol eraill ar gyfer casglu'r ddyled eu hystyried cyn dechrau proses amddifadu o asedau. Mae'r polisi llawn ar Adennill Dyledion ac Amddifadu o Asedau i'w gael ar gais.

|                    |   |
|--------------------|---|
| Manylion y Fersiwn | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Sevices Branding\P6168 Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|--------------------|---|

## **ATODIAD 1 - DEDDFWRIAETH**

Mae'r ddeddfwriaeth ganlynol mewn cysylltiad â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 [SSWBA] yn berthnasol i'r polisi codi tâl hwn:

### **SSWBA**

Rhan 4 – Diwallu Anghenion

Rhan 5 – Codi Tâl ac Aseiad Ariannol

Adrannau 194 a 195 o Ddeddf 2014 Preswylfa Arferol ac Anghydfodau ar Breswylfa Arferol a Hygludedd Gofal

### **Codau Ymarfer**

Rhan 4 a Chodau Ymarfer 4 a 5 (Diwallu Anghenion, Codi Tâl ac Aseiad Ariannol)

### **Rheoliadau**

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Aseiad Ariannol) (Cymru) 2015

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Adolygu Penderfyniadau a Dyfarniadau Gosod Ffi) (Cymru) 2015

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2015

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015

### **Canllawiau Llywodraeth Cymru**

Mae Cod Ymarfer 4 a 5 yn pennu gofynion wrth godi llog ar Daliadau Gohiriedig. Mae modd codi Cyfradd Gilt y Farchnad ynghyd â 0.15% fan bellaf. Bydd y gyfradd i'w defnyddio'n cael ei phennu gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym Mhenderfynyddion y tabl rhagolygon cyllidol sef tabl 4.1 yn adroddiad cyhoeddedig y Rhagolwg Economaidd a Chyllidol sydd i'w weld yn

<http://budgetresponsibility.org.uk/>

|                    |   |
|--------------------|---|
| Manylion y Fersiwn | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Sevices Branding\P6168 Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|--------------------|---|

**ATODIAD 2 – 2017/18 FFŌOEDD A PHRSIAU**

|  |
|--|
| <b>ATODIAD A</b>   |
| <b><u>CODI AM WASANAETHAU CYMDEITHASOL ALLANOL AT YMGYNGHORI</u></b>   |
| <b>(A) Cyflenwi'r Gwasanaeth Dan Godi Taliadau Allanol - hyd at uchafswm cyfunol o £70 yr wythnos y cleient.</b> |

|  |             | <b>Cyfredol</b> | <b>Arfaethedig</b> |  |
|--|-------------|-----------------|--------------------|--|
| <b>Disgrifiad</b>  | <b>Uned</b> | <b>Taliad</b>   | <b>Taliad</b>      | <b>Cyfiawnhad</b>  |
|  |             | <b>£</b>        | <b>£</b>           |  |
| <b>Cymorth Cartref a Chymunedol</b><br><br>Gofal Personol a chymorth cyffredinol gartref ac yn y gymuned.                                | Yr awr      | 14.60           | 16.00              | Mae'r taliad yn ystyried newidiadau chwyddiannol a deddfwriaethol perthnasol.  |
| <b>Cyfleoedd Dydd</b><br><br>Mae hyn yn cynnwys mynychu Canolfannau Dydd a Gweithgaredd Cymdeithasol CSP a chyfleoedd dydd yn y gymuned. |             |                 |                    | Ni fydd unrhyw dâl am gludiant i gyrraedd cyfleoedd dydd lle nodwyd fel angen yn asesiad integredig defnyddiwr y gwasanaeth. |
| <b>Caffael gan ddarparwyr allanol.</b>   | Y dydd      | 23.70           | 31.30              | Cynyddu er mwyn sicrhau cysondeb gyda gwasanaethau eraill sy'n cael eu codi am y gost lawn.                                  |
| <b>Cyflenwi yng nghyfleusterau CSP.</b>  | Y dydd      | 23.70           | 26.53              |  |
| <b>Gwasanaethau wrth fesur, gan gynnwys cymunedol.</b>   | Y dydd      | -               | Wrth fesur         | Caiff pecynnau wrth fesur eu darparu i ddiwallu anghenion asesedig cymhleth.   |
| <b>Seibiannau</b><br><br>Er mwyn darparu gofal a chymorth ar gyfer seibiannau byr mewn sefydliadau heblaw cartrefi gofal cofrestredig.   | Y dydd      | -               | Wrth fesur         | Er mwyn sicrhau cysondeb gyda'r tâl sy'n cael ei godi ar rai'n cael seibiannau mewn cartrefi cofrestredig.                   |
| <b>Lleoliadau Oedolion / Rhannu Bywydau</b><br>(i) Gofal a Chymorth mewn Lleoliad Oedolion (Byrdymor)                                    | Y noson     | -               | 10.29              | Caiff y rhain eu darparu fel rhan o Gynllun rhanbarthol a dylid eu   |

|                    |   |
|--------------------|---|
| Manylion y Fersiwn | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Sevices Branding\P6168 Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|--------------------|---|

|   |             | <b>Cyfredol</b> | <b>Arfaethedig</b> |   |
|---|-------------|-----------------|--------------------|---|
| <b>Disgrifiad</b>   | <b>Uned</b> | <b>Taliad</b>   | <b>Taliad</b>      | <b>Cyfiawnhad</b>   |
|   |             | <b>£</b>        | <b>£</b>           |   |
| (ii) Cyfleoedd Dydd   | Yr awr      | -               | 2.10               | gweithredu i sicrhau cysondeb gyda'r tâl sy'n cael ei godi ar y rhai gyda'r un gwasanaeth ledled y rhanbarth. |
| <b>Taliadau Uniongyrchol</b><br>Gwasanaethau Cartref a Chymunedol<br>(Mae hyn yn cynnwys gofal a chymorth personol a darparu cynorthwyr personol yn y gymuned.) | Yr awr      | 6.20            | 10.55              | Bydd taliadau'n cydfynd â chyfraddau taliadau uniongyrchol sy'n cael eu talu.                                 |
| Cyfleoedd Dydd  | Y dydd      | -               | 35.90              |   |
| <b>(B) Taliadau ar Gyfradd Safonol</b>  |             |                 |                    |   |
| Prydau<br><br>Pryd ar Glud a Phrydau sy'n cael eu darparu mewn Gwasanaethau Dydd Gofal Cymdeithasol   | Y pryd      | 4.34            | 4.77               | Cynyddu prisiau i ystyried effaith codiad cyflog byw cenedlaethol a ffactorau chwyddiannol eraill.            |
| <b>(C) Taliadau Gohiriedig</b>  |             |                 |                    |   |

|   |            | Cyfredol | Arfaethedig |  |
|---|------------|----------|-------------|--|
| Disgrifiad  | Uned       | Taliad   | Taliad      | Cyfiawnhad   |
|   |            | £        | £           |  |
| <p>Llog ar Daliadau Gohiriedig</p> <p>Pan fo eiddo'n cael ei gyfrif yn asesiadau ariannol cleientiaid, gallant ohirio / oedi cyn talu am rai neu holl gostau eu gofal, fel nad oes angen gwerthu eu heiddo wrth fynd i gartref gofal.</p> <p><u>Llog i'w Godi:</u><br/>Ar sail Rhagolwg Cyllidol Mawrth 2017<br/>Cyfradd Gilt y Farchnad = 1.5%</p> | Y flwyddyn | -        | 1.65%       | <p>I weithredu'n unol â phwerau diarnod yn y Ddeddf, caniateir cyfradd log uchaf o 0.15% uwchlaw Cyfradd Gilt y Farchnad. Bydd y gyfradd yn newid bob 6 mis ar 1af Ionawr a 1af Mehefin.</p> <p>Ar hyn o bryd nid ydym yn ystyried codi ffi weinyddol am drefnu taliadau gohiriedig.</p> |

| <b><u>CODI AM WASANAETHAU CYMDEITHASOL PRESWYL AT YMGYNGHORI</u></b> |          |        |        |  |
|--|----------|--------|--------|--|
| <b>(D) Preswyl CSP</b>   |          |        |        |  |
| Parhaol - CSP  | Per Week | 395.00 | 445.51 | Cynyddu'r taliad i sicrhau cyd-fynd â darpariaeth allanol. |
| Taliadau Preswyl am Cartref Preswyl CSP                              |          |        |        |  |

| <b><u>CODI AM WASANAETHAU ALLANOL HEB FOD AT YMGYNGHORI</u></b>   |        |       |       |  |
|---|--------|-------|-------|--|
| <b>(E) Cyflenwi'r Gwasanaeth Dan Godi Taliadau Allanol - hyd at uchafswm cyfunol o £70 yr wythnos y cleient</b> |        |       |       |  |
| Cyfleoedd Dydd  | Y dydd | 38.90 | 38.90 |  |
| Taliadau i'w codi ar Awdurdodau Lleol eraill a Darparwyr Cartrefi   |        |       |       |  |

|                    |   |
|--------------------|---|
| Manylion y Fersiwn | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Sevices Branding\P6168 Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|--------------------|---|



|   |            |      |      |   |
|---|------------|------|------|---|
| Preswyl Preifat sy'n defnyddio gwasanaethau dydd      |            |      |      |   |
| <b>(F) Taliadau ar Gyfradd Safonol</b>                |            |      |      |   |
| Larymau Cymunedol                                     | Yr wythnos | 2.20 | 2.64 | I gynnwys 20% TAW ar y taliad presennol.  |
| Larymau Crog gyda chysylltiad â gwasanaeth cadw golwg |            |      |      | Fe all y taliad hwn fod ar gyfradd sero os yw'r cleient yn cyrraedd y meini prawf cymhwyster. |

|                    |   |
|--------------------|---|
| Manylion y Fersiwn | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Seviles Branding\P6168 Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|--------------------|---|

### **ATODIAD 3 - ASESIAID ARIANNOL (ASESIAD TALIADAU)**

Mae SSWBA, y rheoliadau a'r codau ymarfer yn pennu cyfres o ofynion y mae awdurdod lleol yn gorfod eu hystyried, wrth wneud asesiad ariannol o allu rhywun i dalu, neu wrth bennu cyfraniad neu ad-daliad i rywun sy'n cael taliadau uniongyrchol.

Mae'r rhain yn penderfynu'r canlynol:

- Pa wybodaeth y mae awdurdod lleol yn gorfod ei rhoi i rywun cyn gwneud asesiad ariannol.
- O fewn pa amser y gall awdurdod lleol ofyn am a chael gwybodaeth gan rywun, a'r prosesau i'w dilyn.
- Dan ba amgylchiadau nad oes dyletswydd i wneud asesiad ariannol.
- Trin a chyfrifo incwm a chyfalaf, gydag atodlenni sy'n nodi ffurfiau penodol ar asedau cyfalafol a ffurfiau ar incwm i bennu sut ddylid trin pob un yn asesiad ariannol rhywun.

Bydd defnyddwyr gwasanaethau a/neu eu heiriolwyr neu gynrychiolwyr yn cael ffurflen i'w llenwi, a fydd hefyd yn pennu unrhyw ddogfennau ategol gofynnol. Bydd y rhai sy'n dewis peidio â chydymffurfio â'r cais hwn yn gorfod talu'r gost lawn yn unol â'r rheoliadau.

Mae'r asesiad ariannol yn dangos pa wybodaeth a ddefnyddiwyd i gyfrifo faint sydd i'w dalu am y gofal a chymorth sy'n cael ei ddarparu.

Y dyddiad ar ben yr asesiad ariannol yw'r dyddiad pan ddaw'r taliad asesedig yn berthnasol.

Os caiff asesiad taliadau ei wneud ar gyfer gwasanaethau / cymorth newydd neu a newidiwyd bydd y taliad yn berthnasol o ddyddiad dechrau'r gwasanaethau / cymorth newydd neu a newidiwyd.

Os gwnaed yr asesiad taliadau oherwydd newid yn amgylchiadau ariannol yr unigolyn bydd yn berthnasol o'r dyddiad yr hysbyswyd ni gan yr unigolyn.

Os yw rhywun wedi apelio yn erbyn eu taliad asesedig ac y penderfynodd y dylid newid y taliad ar sail canlyniad yr apêl, bydd y taliad diwygiedig yn berthnasol o ddyddiad derbyn yr apêl.

#### **Terfyn Cyfalaf**

Caiff y terfyn cyfalaf ei bennu yn y Rheoliadau Codi Tâl ac fe all newid o bryd i'w gilydd. Mae'r terfyn ariannol, sy'n dwyn yr enw "terfyn cyfalaf", yn bod at ddibenion yr asesiad ariannol. O ran taliadau allanol, bydd yn llywio'r taliad hyd at uchafswm wythnosol y ddeddf. O ran taliadau preswyl, bydd yn penderfynu pryd fydd gan rywun hawl i gymorth ariannol yr awdurdod lleol i dalu am eu hanghenion preswyl cymwys.

#### **Adrannau'r Asesiad:**

**Arian sy'n dod i mewn** - mae hyn yn dangos gwybodaeth a roddwyd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth neu eu cynrychiolwyr a bydd yn rhestru'r holl fudd-daliadau a gânt. Caiff byrfodau eu defnyddio yn yr adran hon, er enghraifft:

AA = Lwfans Gweini

DLA = Lwfans Byw i'r Anabl

PIP = Taliad Annibyniaeth Bersonol (sy'n disodli DLA)

|                    |  |
|--------------------|--|
| Manylion y Fersiwn | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Services Branding\P6168 Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|--------------------|--|

ESA = Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

Fe all unigolion dderbyn AA a DLA uwch, canol neu is gan ddibynnu ar faint eu hanghenion anabledd.

**Treuliau sydd gennych** – Mae hyn yn dangos faint a ganiatawyd gennym ar gyfer unrhyw dreth gyngor, rhent neu forgais y gallai'r unigolion fod yn atebol amdanynt. Nid ydym yn caniatáu ffioedd atodol. Pan fo rhywun yn atebol ar y cyd â phartner am y dreth gyngor, rhent neu forgais, bydd y swm hwnnw'n cael ei rannu 50/50.

Roedd yr adran hon yn arfer cynnwys diystyru anabledd a ddiweddwyd gan y Cyngor ar ddiwedd 2014/15. Mae'r pennawd treuliau cysylltiedig ag anabledd yn dal i ymddangos ar y datganiad ond ni chaiff ei ddefnyddio mwyach ac, felly, ni fydd swm ar ei gyfer. Anwybyddwch y pennawd hwn.

**Incwm sydd gennych nad ydym yn ei ystyried** – mae rheoliadau'r Llywodraeth yn pennu'r rhan o rai budd-daliadau nad oes modd eu defnyddio i dalu am ofal a chymorth yn y gymuned. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cyfleoedd dydd, gofal cartref, egwylion byr, seibiant (lleoliad dros dro mewn cartref preswyl) a llety gyda chymorth.

Trin budd-daliadau:

- ❖ O ran rhai budd-daliadau, caiff y swm cyfan ei ddefnyddio, er enghraifft lwfans cyflogaeth a chymorth.
- ❖ O ran rhai budd-daliadau, NI chaiff y swm cyfan ei ddefnyddio, er enghraifft, cydrannau budd-daliadau cysylltiedig â symudedd.
- ❖ Caiff rhai budd-daliadau eu hanwybyddu'n rhannol, fel pensiwn rhyfel.
- ❖ Caiff rhai budd-daliadau eu trin ychydig yn wahanol gan ddibynnu a yw'n wasanaeth preswyl neu allanol.

Pan fo cais am apêl yn erbyn taliad gofal, a'r unigolyn eisiau hawlio treuliau cysylltiedig ag anabledd, byddwn yn ychwanegu'r symiau incwm cysylltiedig ag anabledd na ddefnyddiwyd o'r blaen at ein cyfrifiad ar gyfer yr apêl. Mae hyn oherwydd na ddefnyddiwyd y symiau hynny gennym o'r blaen pan oeddem ond yn cyfrifo costau gofal a chymorth yn y gymuned y dylai'r unigolyn eu talu.

**Gwariant sydd gennych nad ydym yn ei ystyried** – nid yw'r adran hon yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd, ond mae'n rhan o asesiad taliadau cyffredinol sydd yn y meddalwedd a ddefnyddiwn.

**Lwfansau sy'n cael eu tynnu o'r incwm** - mae rheoliadau'r Llywodraeth yn pennu'r incwm sylfaenol y dylai pawb ei dderbyn bob wythnos. Mae rheoliadau'r Llywodraeth hefyd yn pennu pa ganran o'r swm sylfaenol y dylid ei hanwybyddu. Mae'r Llywodraeth yn caniatáu hyn oherwydd bod gan bawb dreuliau byw arferol a threuliau cyffredinol cysylltiedig ag anabledd bob wythnos, ar wahân i unrhyw daliadau gofal a chymorth. Felly, byddwn yn defnyddio'r canrannau 'anwybyddu' sy'n cael eu pennu yn rheoliadau'r Llywodraeth ac yn cymhwyso hyn i'r incwm sylfaenol sydd hefyd yn cael ei bennu gan y Llywodraeth.

**Cyfrifo** – mae hyn yn crynhoi'r wybodaeth yn adrannau blaenorol yr asesiad taliadau.

**Arian sy'n dod i mewn** – yr holl incwm wythnosol a hysbyswyd.

**Treuliau sydd gennych** – unrhyw rent, morgais neu dreth gyngor sy'n daladwy bob wythnos.

**Incwm heb ei gyfrif** – rhannau o fudd-daliadau nad oes hawl eu hystyried.

|                    |   |
|--------------------|---|
| Manylion y Fersiwn | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Sevices Branding\P6168 Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|--------------------|---|

**Gwariant heb ei gyfrif – NID YW’N CAEL EI DDEFNYDDIO AR HYN O BRYD**

**Lwfansau** – yr incwm wythnosol sylfaenol, ynghyd â 10% anabledd, a 35% o glustog (yn ôl y rheoliadau).

**Incwm clir asesadwy** – dyma faint o’r incwm wythnosol sydd ar ôl ac y mae modd ei ddefnyddio i dalu am ofal a chymorth.

**Eich swm wythnosol taladwy** – o ran gwasanaeth allanol, bydd y swm hwn yn cael ei gapio ar yr uchafswm wythnosol yn ôl y rheoliadau ac, o ran gwasanaeth preswyl, bydd yn cael ei gapio ar gost y gwasanaeth. Fe all y swm hwn fod yr un faint â’r incwm clir asesadwy neu lai oherwydd, os yw’r incwm clir asesadwy’n llai na naill ai’r uchafswm wythnosol allanol neu gost y gwasanaeth, dim ond swm cyfartal â’r incwm clir asesadwy fydd yn daladwy.

**Gwasanaethau Asesedig** – mae’r adran hon yn dangos COST y gofal a chymorth sy’n cael ei ddarparu bob wythnos. NID dyma faint fydd yn cael ei godi.

|                    |   |
|--------------------|---|
| Manylion y Fersiwn | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Sevices Branding\P6168 Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|--------------------|---|

## **ATODIAD 4 – APELIO YN ERBYN TALIADAU ASESEDIG**

Mae modd gofyn am adolygiadau ar gyfer taliadau gofal a chymorth preswyl ac allanol. Bydd yr adolygiadau hyn hefyd yn ymestyn i gyfraniadau neu ad-daliad ar gyfer taliadau uniongyrchol. Mae modd gwneud adolygiadau taliadau mewn sefyllfaoedd pan fo'n ymddangos bod rhywun wedi cael ased gyda'r bwriad o osgoi neu leihau taliadau rhywun a allai fod yn agored i dalu.

### **Rhesymau dros apelio yn erbyn taliad asessedig:**

- mae'n ymddangos nad yw CSP wedi cydymffurfio â'r rheoliadau a/neu ei bolisi codi tâl
- nid yw'r asesiad ariannol yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol a roddwyd
- mae'r cyfrifiadau yn yr asesiad ariannol yn anghywir
- ni ddarparwyd y gofal a chymorth y codwyd amdano
- mae amgylchiadau a/neu'r gofal a chymorth wedi newid ond nid yw'r taliad asessedig cyfredol yn adlewyrchu hynny
- mae treuliau ychwanegol cysylltiedig ag anghenion nad ystyriwyd yn yr asesiad ariannol cyfredol
- penderfynwyd y trosglwyddwyd ased i osgoi costau gofal ac nid yw'r unigolyn sy'n gorfod talu'n cytuno â'r penderfyniad hwn.

### **Mae modd gofyn am apêl yn ysgrifenedig neu ar lafar a rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

- y rheswm dros wneud y cais
- manylion gwariant cysylltiedig ag anghenion ychwanegol y dylid ei ystyried (gan gynnwys darparu tystiolaeth ddogfennol ategol)
- manylion cynrychiolydd a/neu eiriolwr yr unigolyn, ynghyd â'r caniatâd angenrheidiol (fe all fod, er enghraifft, yn gyfaill neu berthynas a benodwyd gan yr unigolyn, neu eiriolwr ffurfiol i weithredu ar ran yr unigolyn). Bydd CSP yn cadarnhau hyn yn ysgrifenedig ac yn hysbysu'r unigolyn bod modd tynnu'r caniatâd hwn yn ôl ar unrhyw adeg yn ystod yr apêl.

Fe all yr unigolyn neu'r cynrychiolydd dynnu'n ôl y cais am adolygiad ar unrhyw adeg tra bo'n cael ei ystyried, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig. Caiff hyn ei gadarnhau'n ysgrifenedig.

Bydd bwy bynnag a benodwyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried yr holl wybodaeth a roddwyd ac yn gwneud penderfyniad.

### **Derbyn cais am adolygiad**

Bydd ceisiadau am adolygiad yn dderbyniol os ydynt yn ateb y rhesymau a restrwyd uchod. Os daw cais sy'n berthnasol i gais blaenorol a gafodd ei drin, ond bod yr amgylchiadau'n dal yr un fath, bydd yr ail gais yn cael ei wrthod (Rheoliad 9 - Derbyn y cais). Caiff hyn ei gadarnhau'n ysgrifenedig a bydd yn rhoi'r rhesymau dros wrthod y cais.

|                    |   |
|--------------------|---|
| Manylion y Fersiwn | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Seviles Branding\P6168 Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|--------------------|---|

Bydd cydnabyddiaeth ysgrifenedig o gais dilys yn cael ei anfon cyn pen 5 diwrnod gwaith ar ôl ei dderbyn. Bydd yn cynnwys cyfarwyddiadau ar ddarparu gwybodaeth ychwanegol a dogfennau ategol; a gwybodaeth am wasanaethau eirioli. Bydd y gydnabyddiaeth hefyd yn cynnwys gwahoddiad i ofyn am ymweld â'r cartref (fel arfer gan un o eiriolwyr gwasanaeth eirioli DEWIS), ac yn hysbysu'r unigolyn y gall benodi cynrychiolydd i drin yr apêl. Bydd yn cynnwys y ffaith nad yw'r unigolyn yn gorfod talu'r taliad yn ystod yr adolygiad ond rhaid hysbysu'r cyngor cyn pen 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y gydnabyddiaeth. Rhaid hysbysu'r unigolyn bod yr atebolrwydd yn aros am y taliadau sy'n cronni yn ystod yr apêl. Bydd yr unigolyn yn cael gwneud trefniant i addalu'r ddyled mewn rhandaliadau, ochr yn ochr â'r taliad wythnosol yn dilyn yr apêl. Yn achos y rhai sy'n talu cyfraniad at daliadau uniongyrchol fel eu bod fel arfer yn derbyn taliadau uniongyrchol clir o'r didyniad hwn, dros gyfnod yr adolygiad **rhaid** i awdurdod dalu'r taliadau uniongyrchol crynswth heb y didyniad hwn os bydd y derbynnydd yn dewis peidio â thalu'r cyfraniad yn ystod yr adolygiad.

Rhaid darparu gwybodaeth ychwanegol a dogfennau ategol cyn pen 15 diwrnod gwaith. Os nad oes modd gwneud hyn, rhaid i bwy bynnag sy'n ceisio'r adolygiad ofyn am estyniad. Bydd nodyn atgoffa'n cael ei anfon neu'n cael ei wneud ar lafar 5 diwrnod cyn y terfyn amser ac, os oes angen estyniad, bydd 15 diwrnod gwaith yn cael ei ganiatáu, gyda'r un adegau atgoffa. Ar ôl yr atgoffa, bydd llythyr yn cael ei anfon yn dweud y caewyd yr apêl, gyda gwahoddiad i ailgeisio pan fydd yn barod i wneud hynny. Os na chaiff estyniad ei gytuno, bydd y rhesymau dros wrthod yr estyniad yn cael eu cadarnhau'n ysgrifenedig. Os na chaiff gwybodaeth ei darparu o fewn y cyfnod a gytunwyd a dim rhagor o wybodaeth yn dod ar ôl anfon nodyn atgoffa, bydd hysbysiad ysgrifenedig yn cael ei anfon i ddweud y caewyd yr apêl. Os oes cynrychiolydd neu drosglwyddai atebol dan sylw, bydd gwybodaeth yn cael ei hanfon at bawb fel y bo'n briodol. Os na chaiff holl wybodaeth ychwanegol ei darparu, bydd y nodyn atgoffa'n cynnwys hysbysiad y caiff y penderfyniad ei wneud ar sail y wybodaeth a roddwyd hyd yma.

Bydd yr Unigolyn Penodedig yn cael y wybodaeth cyn pen 4 diwrnod ar ôl derbyn holl wybodaeth / dogfennau perthnasol. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei hystyried a phenderfyniad yn cael ei wneud cyn pen wythnos yn dilyn ei derbyn. Bydd unrhyw ymholiadau'n cael eu trafod gyda'r gweithwyr proffesiynol perthnasol a/neu ddefnyddiwr y gwasanaeth ac, os na chânt eu datrys, bydd cadarnhad ysgrifenedig o estyniad a rhesymau dros hynny'n cael ei anfon at bwy bynnag sy'n gofyn am yr adolygiad. Bydd yn cael ei hysbysu o ganlyniad yr apêl cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr holl wybodaeth berthnasol a bydd yn cael datganiad newydd yn adlewyrchu penderfyniad yr apêl. Ni fydd unrhyw swm sy'n cronni yn ystod estyniad at yr amser a gymrwyd i wneud penderfyniad ar ôl derbyn holl ddogfennau perthnasol yn cael ei adennill.

Os yw pwy bynnag sy'n gwneud y cais am adolygiad yn drosglwyddai atebol, **rhaid** i'r gydnabyddiaeth hefyd nodi a yw'r awdurdod yn bwriadu gofyn am wybodaeth neu ddogfennau gan rywun arall, ac am ba wybodaeth neu ddogfennau y gofynnir, os o gwbl.

|                    |  |
|--------------------|--|
| Manylion y Fersiwn | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Sevice Branding\P6168 Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|--------------------|--|

## **Ystyried Gwybodaeth Ychwanegol a Ddarparwyd**

Dim ond treuliau sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag anghenion asesedig a gofnodwyd fel rhan o'r cynllun gofal fydd yn cael eu hystyried. Lle bo modd, bydd gwerthoedd treuliau cysylltiedig ag anghenion, a allai gael eu hystyried, yn seiliedig ar y rhai sy'n cael eu defnyddio gan Fforwm Cenedlaethol y Swyddogion Ariannol.

|                       |  |
|-----------------------|--|
| Manylion y<br>Fersiwn | C:\Users\jameso\Desktop\11546 - Peta Rogers - Social Seviles Branding\P6168<br>Social Services Charging Policy 2.1.19 cymru.docx |
|-----------------------|--|